**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

15 Awst 2024

Annwyl bartneriaid

Mae Gweinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi siarad â nifer o sefydliadau'r trydydd sector yn ddiweddar, ac roeddwn am ysgrifennu atoch i gydnabod bod hyn wedi bod yn bythefnos anodd iawn i gymunedau ledled y DU. Rydym yn parhau i fynegi ein cydymdeimlad mewn undod â'r dioddefwyr a'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan yr ymosodiad erchyll a disynnwyr yn Southport.

Mae’r anhrefn a’r cam-drin treisgar hiliol ac Islamaffobaidd diweddar wedi bod yn warthus. Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi pobl a chymunedau ethnig lleiafrifol yn gryf. Mae Heddluoedd Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru hefyd wedi datgan yn glir eu hymrwymiad parhaus i weithio'n agos â chymunedau i gynnig cyngor a chymorth.

Rydym am i Gymru barhau i fod yn genedl gyfeillgar a chroesawgar, ac mae angen i'n cydberthnasau ar draws ein cymunedau adlewyrchu hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn sefyll yn gadarn y tu ôl i'r rhai sy'n ceisio uno, yn hytrach na rhannu, ein cenedl.

Mae’r gamwybodaeth a’r naratifau atgas sy’n cael eu lledaenu dros yr wythnos ddiwethaf wedi bod yn warthus. Gwyddom fod y bygythiad o anhrefn posibl wedi cael effaith wirioneddol ar lawer o bobl yng Nghymru ac wedi tynnu sylw at brofiadau annerbyniol casineb a hiliaeth y mae pobl yn aml yn eu hwynebu yn eu bywydau bob dydd.

Rwyf wedi cael fy nghalonogi gan yr undod a ddangosir yng Nghymru. Nid yw'r trais hiliol ac Islamaffobaidd a welsom yn cynrychioli pwy ydym ni fel cenedl. Er hynny, nid ydym yn hunanfodlon.

Ddydd Gwener 9 Awst, cyfarfu'r Prif Weinidog a minnau â phartneriaid plismona, llywodraeth leol a'r trydydd sector i rannu gwybodaeth a'r hyn a ddysgwyd. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i glywed pryderon cymunedau, gan gynnwys gan y rhai o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Rwyf am eich sicrhau ein bod yn cymryd camau i sicrhau bod pawb yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi. Rydym yn gweithio'n agos â'r heddlu i atal anhrefn, monitro tensiynau ac amddiffyn cymunedau rhag niwed. Cyhoeddodd y Prif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig ddydd Gwener, sydd i'w weld yma: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diogelwch-pobl-chymunedau-yng-nghymru-yn-dilyn-y-digwyddiad-yn-southport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Hoffwn ddiolch i'r trydydd sector yng Nghymru am wrthod y casineb a fynegwyd yn ystod y protestiadau treisgar diweddar. Rwy'n gwybod eich bod yn gweithio'n ddiflino i gefnogi undod i bawb yn ein cymunedau. Nodaf fod Lindsay Cordery-Bruce, Prif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, wedi llofnodi'r datganiad a gyhoeddwyd gan Grŵp y Gymdeithas Sifil yn condemnio'r trais. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi canllawiau a allai fod yn ddefnyddiol ichi wrth amddiffyn staff, gwirfoddolwyr a chleientiaid.

Bydd ein hymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru yn helpu dioddefwyr i roi gwybod am droseddau casineb a chael gafael ar gymorth, yn ogystal ag annog tystion a gwylwyr i gamu ymlaen lle bo hynny'n briodol. Os ydych chi'n profi neu'n dyst i drosedd neu ddigwyddiad casineb, rydym yn eich annog i roi gwybod am y rhain drwy gysylltu â'r heddlu neu Ganolfan Cymorth Casineb Cymru. Rhannwch yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer yr ymgyrch hon drwy eich rhwydweithiau gan ei bod yn bwysig bod y negeseuon hyn yn cyrraedd y bobl a'r cymunedau yr effeithir arnynt.

Dw i'n annog pobl i barhau i ddilyn y cyngor a'r arweiniad sy'n cael ei rannu gan bartneriaid o fewn yr heddlu drwy eu sianeli swyddogol dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf. Gyda'n gilydd, fe allwn ni sefyll yn erbyn casineb a sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu teimlo'n ddiogel yn y cymunedau lle maen nhw'n byw.

Rwyf am fod yn glir nad oes lle i gasineb yng Nghymru. Gyda'n gilydd, fe allwn ni sefyll yn erbyn casineb.

Yn gywir



**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol,
y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Culture and Social Justice, Trefnydd and Chief Whip